| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Cyngor Llawn** |
| **DYDDIAD** | **6 Mawrth 2025** |
| **TEITL** | **Newidiadau Cyfansoddiad – Rheolau Gweithdrefn Contract Newydd (Adran 17)** |
| **PWRPAS** | **Gofynnir i'r Cyngor Llawn fabwysiadu'r Rheolau Gweithdrefn Contract newydd (Adran 17) a ddangosir yn Atodiad 1.** |
| **AELOD CABINET** | **Cyng Llio Elenid Owen** |
| **SWYDDOG CYSWLLT** | **Iwan Evans (Swyddog Monitro)**<br>**Arwel Evans (Rheolwr Caffael)** |

## 1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

**Gofynnir i'r Cyngor Llawn yn newid y Cyfansoddiad drwy fabwysiadau'r Rheolau Gweithdrefn Contract newydd (Adran 17) a ddangosir yn Atodiad 1.**

## 2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

Mae'r Ddeddf Caffael 2023 a ddaeth i rym 24 Chwefror 2025 yn golygu bod rhaid i'r Cyngor adolygu a diwygio ein rheolau caffael mewnol sydd wedi eu cynnwys o fewn y Rheolau Gweithdrefn Contract i adlewyrchu y newid yn y ddeddfwriaeth ac er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r Ddeddf.

## 3. CEFNDIR

Ers i'r Deyrnas Unedig adael yr Undeb Ewropeaidd, mae'r Llywodraeth (DU) wedi adnabod hyn fel cyfle i adolygu deddfwriaeth sy'n gysylltiedig â chaffael yn y sector gyhoeddus. Maent wedi pasio y Ddeddf Caffael 2023 ac yn wreiddiol mi oedd y Ddeddf i fod i ddod i rym ar 28 Hydref 2024 ond gafodd ei wthio yn nôl, a phellach wedi dod i rym ar 24 Chwefror 2025. Hefyd, mae Llywodraeth Cymru wedi pasio Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 a mae hyn yn rhoi mwy o gyfrifoldebau a dyletswyddau ar sefydliadau sector gyhoeddus yng Nghymru sydd hefyd yn gysylltiedig â chaffael.

Yn sgil y ddeddfwriaeth newydd, mae'r adran Gaffael wedi bod yn paratoi y Cyngor ar gyfer y newid mewn deddfwriaeth sydd wedi digwydd. Fel rhan o wneud hyn mae'r adran Gyfreithiol, mewn ymgynghoriad â'r adran Gaffael, wedi bod yn adolygu trefniadau caffael mewnol y Cyngor. Yn ychwanegol, mae'r adran Gyfreithiol wedi derbyn cyngor gan gwmni allanol sydd wedi bod yn gweithio gyda cynghorau ar draws Gogledd Cymru a rydyn ni wedi ymgorffori rhai o'u pwyntiau drafftio nhw.

Pwrpas y Rheolau Gweithdrefn Contract ydi nodi'r broses dylai'r Cyngor ddilyn wrth gynnal ymarfer caffael ac yn benodol ymarfer caffael sydd ddim yn disgyn o dan y Ddeddf neu Rheoliadau Caffael 2024. Mae'r Rheolau yn nodi'r dulliau gwahanol a phryd dylid eu defnyddio. Yn ogystal â sicrhau cydymffurfiaeth mae'r adolygiad hefyd wedi rhoi cyfle i sicrhau bod y Rheolau yn ddigon hyblyg i ganiatáu swyddogion i gynnal ymarfer caffael yn y ffordd fwyaf effeithlon ac effeithiol. Yn holl bwysig, mae'n sicrhau bod yna reolaeth i unrhyw ymarfer caffael ac yn sicrhau gwerth am arian i'r Cyngor. Mae'r rheolwr caffael wedi bod yn gyrru cyfres o negeseuon i reolwyr dros yr wythnosau diwethaf i baratoi at y Rheoliadau Caffael Cenedlaethol newydd a'u diweddaru o'r newidiadau.

Y prif bwyntiau i amlygu yw:

- Trothwyon yn aros yr un fath £5k= 1 dyfynbris, £5k-£50k= 3 dyfynbris, tendr agored ar gyfer cytundeb dros £50k
- Y gweithdrefnau newydd wedi eu cynnwys ar gyfer tendrau o dan y trothwy sef: agored, hyblyg gystadleuol a penodi'n uniongyrchol
- Cyfeiriad at gynnwys gwerthusiad gwerth cymdeithasol ond heb gynnwys swm penodol
- Newid i'r drefn gyrru llythyrau (standstill) a creu hysbysebion (contract details notice) ar gyfer penodiadau dros £30k
- O leiaf 2 berson gydag arbenigedd perthnasol i fod yn rhan o dîm gwerthuso tendr
- Dewis dyfarnu contract cyhoeddus ar sail y tendr mwyaf manteisiol (Most Advantageous Tender) – symud i ffwrdd o'r tendr mwyaf manteisiol yn economaidd (Most Economically Advantageous Tender)
- Newid y terminoleg i beth sydd yn y Ddeddf

Yn ei gyfarfod ar 6 Chwefror 2025, penderfynodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i dderbyn y Rheolau Gweithdrefn Contract er mwyn eu cyflwyno i'r Cyngor Llawn yma heddiw a nid oedd unrhyw sylw neu gwestiwn wedi codi.

**4. RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD**

Mi fuasai peidio adolygu a diwygio y Rheolau yn codi risg sylweddol i'r Cyngor a buasai'r Cyngor yn:

i. agored i her gyfreithiol am fethu â chydymffurfio â'r ddeddfwriaeth;
ii. debygol o gael beirniadaeth gan archwilwyr a rheoleiddwyr.

**Y Swyddog Monitro:**

Argymhelliad y Swyddog Monitro

**Pennaeth Cyllid:**

Mae diweddaru'r Rheolau Gweithdrefn Contractau er mwyn adlewyrchu'r gofynion deddfwriaethol diweddaraf yn weithred angenrheidiol. Rwyf yn cefnogi'r Penderfyniad a Geisir o safbwynt iawn weinyddiad ariannol y Cyngor.